Published as a supplement to "Udgorn Cymru", Oct. 1, 1841

3.77

# BREINIAU DYN. CAN NEWYDD.

Dercha dy lais o Ion,
A'th gerdd yn felus dôn,
Ac wrthi glŷn;
Bid *bann* dy lafar gref
Fal swn taranau'r nef,
Nes deffro'r byd a'th lef,—
Can freiniau dŷn.

Rhyddid y sydd yn awr
Fal llew rhuadwy mawr;
Pob tir a'i clyw;
A'r gwir sydd ar ei daith,
Dros yr holl ddaear faith,
Yn seinio peraidd iaith,
I ddynol ryw.

Pwyll a chyfiawnder sydd
Yn gweled gwawr eu dydd,
Yn tori'n hardd;
Ffoi mae'r cymmylau'n wir;
Mae'r nos yn gado'n tir,
O'r dwyrain, cyn bo hir,
Haul Haf a dardd.

Gorthrymwyr yr holl fyd
Sy'n curo'u gliniau 'nghyd:
Mawr yw eu crŷn.
Fel angau'n brathu'r ais,
I wisgwyr coron trais
Yw clywed hanner llais,
Am Freiniau Dyn.

Hir fuom dan y Iau,
Pob calon yn llesghau,
Pob braich yn wann.
Ond cynnull nerth, mae'n hawl
Y ffordd y rhodia'r *gwawl*.—
O canwn iddo fawl!
Mae Duw o'n rhann.

Yn nhir caethiwed crin,
A'r Iau'n clwyfo'n flin;
Bu gwael ein byd;
Cael yno'n cneifio'n llwm,
Baich mawr a bwysai'n drwm,
Fal mynydd mawr o blwm,
I'n llethu 'nghŷd.

Mae'n cwyn am beth sydd waeth,
Cydwybod, hithau'n gaeth,
Tra grefyn yw;
Marchoges y ddraig rudd,
A deddf ei llid a'n lludd,
Ni chawn ond yn y cudd
Iawn enwi'n Duw.

Ond dydd sy'n agoshau,
Dydd hyfryd i'n rhyddhau,
O'n poen a'n braw;
Bydd megis ffwrn o dân,
A ddifa'r drwg yn lân!—
Derchafwn bawb y gân;
Y mae gerllaw.

Er maint ffyrnigrwydd naws
Y rhai sy 'nawr mor draws,
Cânt synhwyr prŷn,
Dan bwys digofaint bŷd,
Hwy syrthiant oll ynghŷd
Am iddynt sarnu cŷd
Ar Freiniau Dyn.

Clyw'r Brenin balch di râs,
A thi'r offeiriad bras,
Dau ddiawl yng nglŷn
Hir buoch fel dau gawr,
I'r byd yn felldith fawr,
Gan sarnu'n llaid y llawr,
Holl Freiniau Dyn.

Anrheithio'r byd, a lladd
Eich brodyr o bob gradd,
Yw'ch gwynfyd oll.
Cyfiawnder, drwy'ch sarhad,
Ymguddiai rhag eich brâd;
Cyfrifid e' 'mhob gwlad
Fel peth ar goll.

Lle bai'ch wynebau pres,
Gwir grefydd nid oedd nes,
O godi ei llef.
Lle'n tywallt gwaed y gwann
Bai'ch rhyfel yn mhob mann,
Caid uffern fawr o'ch rhann,
A'i byddin gref.

Lle traethit gyfraith hedd,
Danfonech yno'r cledd
Ag eitha brys.
Pan losgech fawr a mân,
Mewn dinas fawr ar dân,
Gorfoledd fyddai'ch cân
Mewn llann a llys.

Ond llais o'r nef sy' nawr
Yn deffro'r ddaear fawr,
Gan draethu'r gwir,
Angel goleuni sydd
Yn tywallt nefol ddydd,—
Cawn ynddo rodio'n rydd,
Cawn, cyn bo hir.

Dros holl ardaloedd cred,
Mae cyffro mawr ar led,
Fal daear grŷn,
Yn llorio'r hil ddihedd,
A'u rhoddi'n fwyd i'r cledd,
Am roddi fal mewn bedd
Holl Freiniau Dyn.

Er cyd fu pawb yn ddall,
Dan ormes plant y fall,
Fal seirph yng nglŷn;
Ni ddown o'r llaid i'r lan,
Mae'r gwir, mae'r nef o'n rhan,
Sefydlwn ym mhob man
Holl Freiniau Dyn.

O pa'm, frenhinoedd byd,
Y welwch ewyn cyd,
Mewn poethder gwŷn,
Clywch orfoleddus gainc,—
Mae'r gwledydd oll, fal Ffrainge,
Yn rhoddi'r orsedd fainc
I Freiniau Dyn.

Gorfoledd! cwyn dy lais,
Cwymp holl deyrnasoedd trais.
Maent ar eu crŷn.
Cawn deyrnas hardd ei gwedd,
Dan farn tywysog hedd,
Yn hono cwyn o'r bedd
Holl Freiniau Dyn.

---

Iolo Morganwg a'i cant, 1789, yng ngorfedd yr Alban Eilir.
Ac a'i ysgrifenodd a llaw fiinderus iawn, y chwechfed fore
o'r ail Leuad gwedi'r Alban Eilir, cyn codi haul.

---

Iolo gryno gywreindeg,——mewn heddwch,
Ti haeddit gael anrheg,
Gan y Beirdd mewn barddoneg
O ganmoliaeth odiaeth deg.

Trefnaist, gosodaist yn gyson,——o'r bron
Y breiniau gollasom;
Rhoddaist obaith i gaethion
Am ryddid wych lan-bryd lon.

---

MERTHYR: ARGRAFFWYD GAN DAVID JOHN, IEU., A MORGAN WILLIAMS.

x7C5210200